

# DOLEN Y TAB – 40

29–30 Ionawr 2021

## \*OEDFA RITHIOL 31 IONAWR\*

Sara Esyllt fydd yn ein croesawu i'r oedfa yr wythnos hon, a chyflwynir y Myfyrdod gan Emlyn Davies. Cawn gyfle i roi teyrnged i'r diweddar Vivian Jones, Llywydd Anrhydeddus Cristnogaeth 21, a fu farw ychydig ddyddiau'n ôl. Bydd y cyfan ar gael ar y dudalen Facebook, ar wefan y capel ([www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org)) ac ar ein sianel YouTube drwy glicio [YMA](https://www.youtube.com/channel/UCvYMA).

## OEDFAON NESAF

### Chwefror

- 7 Pentref Pentyrch  
14 Y Parchedig Aled Edwards  
21 Lyn West  
28 Lowri a Dafydd a'r teulu

### Mawrth

- 7 Y Parchedig Aled Edwards

### Hefyd ar 31 Ionawr . . .

#### Oedfa Ddigidol Undeb yr Annibynwyr

Y Parchedig Dyfrig Rees. ([www.annibynwyr.org](http://www.annibynwyr.org))

#### 11.00 S4C Oedfa Dechrau Canu Dechrau Canmol

Y Parchedig Densil Morgan fydd yn arwain yr oedfa.

#### 12.00 Oedfa Radio Cymru

Yng ngofal Derek Rees, Abertawe.

#### 12.30 Radio Cymru

Bwrw Golwg gyda John Roberts.

**E-fwletin Cristnogaeth21** newydd i'w weld bob bore Sul [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## PEN-BLWYDD HAPUS

Estynnwn ein dymuniadau gorau i Elaine James, Ton-teg, oedd yn dathlu pen-blwydd arbennig iawn ar 20 Ionawr.

## RHANDIROEDD

Estynnir gwahoddiad i aelodau o'r Tabernacl roi cynnig am un o'r lleiniau newydd sydd ar gael bellach yn rhandir y capel, yn dilyn yr holl waith a wnaed i gymhennu'r tiroedd. Mae'r cynnig hwn wedi ei gyfyngu yn y lle cyntaf i aelodau'r capel yn unig, ond os na ddangosir diddordeb ymhlith yr aelodau yna fe estynnir y gwahoddiad i'r gymuned ehangach ym mhentref Efail Isaf. Os oes gennych diddordeb, neu i gael rhagor o fanylion, cysylltwch naill ai gydag Emlyn 'Pens' Jones ([pens37@outlook.com](mailto:pens37@outlook.com) / 07881 501137) neu Mike West [mikealynwest@yahoo.co.uk](mailto:mikealynwest@yahoo.co.uk) / 07974 186596.

# TAFOD Y TAB

Ionawr 2021

Fel y crybwyllwyd yn rhifyn wythnos diwethaf o'r *Ddolen*, byddwn yn cyhoeddi rhifyn Ionawr o *Tafod y Tab* dros y Sul yma. Er mawr siom i bob un ohonom, ond er mwyn sicrhau diogelwch ein Gofalwyr Ardal a'n haelodau wrth geisio ei ddsbarthu o dŷ i dŷ, fersiwn digidol yn unig a gynhyrchir y tro hwn eto. Am resymau sydd hefyd yr un mor amlwg, bydd ei gynnwys ychydig yn wahanol i'r 'norm' ond serch hynny gobeithio'n fawr y cewch gysur wrth ddarllen yr amrywiaeth o newyddion, ysgrifau a mwynhau'r lluniau sydd ynddo. Cofiwch felly, rhwng hyn a'r Sul, daw cyfle i 'bori' drwy dudalennau'r *Tafod* diweddaraf ar un o lwyfannau digidol y Tabernacl – ein gwefan ([www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org)), neu ein tudalen Facebook (<https://www.facebook.com/groups/160892754663847>). Hefyd anfonir copi digidol i bawb sy'n derbyn e-bostiadau o gyfrif Gmail yr eglwys.

## Hola'n Deg

Yn rhifyn Ionawr/Chwefror 2021 o *Agora* – cylchgrawn digidol Cristnogaeth21 (gweler *cristnogaeth21.cymru*) – mae Geraint Rees yn holi cyfres o gwestiynau i bedwar o unigolion am eu magwraeth, digwyddiad neu achlysur a daniodd eu didordeb mewn materion ffydd, eu gweledigaeth o Dduw, eu rhwystredigaethau a'u gobeithion mwyaf o ran bywyd eglwysig Cymru heddiw, a llawer iawn mwy. Y pedwar a holi'r ganddo yw Karen Owen, Eifion Wynne, Y Parchg. Dad Allan R. Jones a Catrin Elis Williams. Mae eu hatebion yn ddadlennol iawn ac yn werth myfyrio drostynt wrth feddwl am le ffydd yn ein bywydau bob dydd heddiw.

## Cymdeithas Hanes Undeb yr Annibynwyr

## Y Pla ac ymateb yr Eglwys

Siaradwr Gwadd:  
Y Parchg. Ddr. Alun Tudur

7.30 Nos Fercher 10 Chwefror 2021

### Linc Zoom:

<https://us02web.zoom.us/j/85891049725?pwd=aVJ6bk1DeGU3K1IzLzEwOjBYN2NWZz09>

Meeting ID: 858 9104 9725

Passcode: Undeb

# ‘O ble daw goleuni o’r cysgodion di-ddiwedd?’

Fel Cymry, rydym yn ymfalchïo yn y parch a roddwn fel cenedl i’n beirdd. Yr enghraifft fwyaf amlwg yw’r clod a’r bri a roddir i enillwyr cadair a choron ein prifwyl. Fe’u mawrygir yn ogystal yn ein hanthem genedlaethol, a hynny o flaen cerddorion ac ‘enwogion o fri’.

## Seren y Dydd

Er bod parch mawr i feirdd yn yr UDA hefyd nid ydynt, ar y cyfan, yn derbyn clod cyhoeddus amlwg fel ein prifeirdd yma yng Nghymru. Un eithriad nodedig yw’r sylw a roddir i’r rhai a ddewiswyd i gyflwyno cerdd yn seremoni sefydlu Arlywydd newydd. Robert Frost, un o feirdd mwyaf yr ugeinfed ganrif, oedd y cyntaf i dderbyn yr anrhydedd honno, ac yntau’n 86 mlwydd oed, yn seremoni sefydlu’r Arlywydd John F. Kennedy yn 1961. Gan fod estyn gwahoddiad i fardd yn opsiynol, dim ond llond dwrn sydd wedi derbyn yr anrhydedd erioed – ac Amanda Gorman oedd y ddiweddaraf.

Wedi tensiynau enbyd etholiadau 2020, a helyntion wythnosau olaf tymor Donald Trump fel Arlywydd, awyrgylch o ryddhad o weld ei gefn ef yn hytrach na dathliadau buddugoliaethus y Democratiaid a gafwyd ar Capitol Hill, Washington DC fore Mercher 20 Ionawr. Mae’n wir i’r sêr pop profiadol wneud eu gorau glas i godi ysbryd y dyrfa, ynghyd â’r miliynau o gefnogwyr oedd yn gwylio’r seremoni yn fyw o’u cartrefi, ond eithaf fflat ar y gorau oedd yr achlysur.

Pa obaith felly oedd gan Amanda Gorman, bardd 22 mlwydd oed a’r ieuengaf erioed i dderbyn y fraint, wrth iddi gamu i’r



llwyfan i adrodd ei cherdd 100 llinell? Er mawr ryddhad i bawb, cododd holl awyrgylch y diwrnod i dir llawer uwch wrth iddi ddarllen ei cherdd bwerus, ‘The Hill we Climb’, a hynny gyda’r fath argyhoeddiad. Does ryfedd yn y byd felly mai pennawd tudalen flaen y *Boston Globe* yn ddiweddarach oedd, ‘*Amid presidents and pop stars, poet Amanda Gorman grasps the spotlight at inauguration*’. Tipyn o gamp, a dweud y lleiaf, ar achlysur mor hanesyddol.

Diben y gerdd, yng ngeiriau’r bardd, yw cyfleu sut gall y genedl ddod at ei gilydd a gwella’i hun ar waetha popeth. Ond ni lwyddir i gyflawni hyn trwy anwybyddu neu anghofio’r casineb a amlygwyd yn ystod yr wythnosau a’r misoedd blaenorol. Mae’r pwyslais ganddi ar gymodi ac nid ar daflu bai. Yn briodol iawn, mae’r gerdd yn cloi ar nodyn cadarnhaol iawn trwy ateb y cwestiwn a godwyd ganddi yn y cwpled agoriadol (gweler teitl yr ysgrif hon):

**‘Mae goleuni ar gael bob amser, dim ond i ni fod yn ddigon dewr i’w weld.’**

## Ond nid Seren Wib mohoni

Wrth gwrs, ar ôl y seremoni roedd hi’n gwbl naturiol bod nifer am wybod mwy am gefndir y bardd. Yng Nghymru, y cwestiynau cyntaf yn reddfal fyddai holi ‘o ble mae hi’n dod?’ ac ‘i bwy mae hi’n perthyn?’ Ond go brin bod diben holi hynny mewn gwlad o 330 miliwn o drigolion, a bod taith rhwng 2,500 a 3,500 o filltiroedd o un pen o’r wlad i’r llall! Dros y dyddiau yn dilyn y seremoni, cawsom wybod ei bod yn un o dri o blant a fagwyd gan fam sengl yn Los Angeles. Yn ystod ei phlentyndod, wynebodd rwystrau lu gan fod nam ar ei chlyw a’i lleferydd. Ond ar waetha hyn dyma’r cyfnod pryd y datblygodd ei phersonoliaeth gadarn a’r gwerthoedd sy’n rhan annatod ohoni, a hynny trwy ymroi i wneud iawn am ei nam wrth ddarllen ac ysgrifennu’n ddi-baid. O ganlyniad, magodd gariad at lenyddiaeth ac empathi at y difreintiedig a chyfiawnder i’r rhai sydd dan ormes – boed hynny ar sail lliw eu croen neu eu hamgylchiadau. Mae’n siŵr bod ei magwraeth Gristnogol yn Eglwys y Santes Brid, Los Angeles, hefyd wedi chwarae rhan bwysig.

Nid ei chyfraniad i’r seremoni sefydlu yw’r unig anrhydedd sydd wedi dod i’w rhan, oherwydd yn 2017 hi oedd y person cyntaf i gael ei phenodi’n *National Youth Poet Laureate* – swydd a gynigir i berson ifanc sy’n meddu ar lefel uchel o sgiliau barddonol, yn ymrwymedig i gyfiawnder cymdeithasol, ac wedi dangos ymroddiad o hybu barddoniaeth ymhlith yr ifanc.

Does dim amheuaeth bod dyfodol disglair iawn o flaen Amanda, ac efallai y caiff wireddu ei breuddwyd mai hi fydd â’r **hawl** i wahodd bardd ifanc arall i gyflwyno cerdd yn seremoni Sefydlu’r Arlywydd newydd yn 2036!

---

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i’r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel.*

Gofynnir i chi anfon unrhyw newyddion erbyn nos lau at: [gehpenwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpenwern@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.